

Y Llys Gweinyddol yng Nghymru a Chylchdeithiau Canolbarth, Gogledd, Gogledd Ddwyrain a Gorllewin Lloegr

Yn dod i rym o'r 26ain o Ebrill 2022, y drefn arferol cyffredinol yn Y Llys Gweinyddol yng Nghymru a Chylchdeithiau Canolbarth, Gogledd, Gogledd Ddwyrain a Gorllewin Lloegr yw y bydd gwrandawriadau yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb a bydd angen i bartïon deithio iddynt. Bydd angen i unrhyw barti sy'n dymuno gwneud cais am fath arall o wrandawriad ffeilio a chyflwyno rhybudd o gais (gan ddefnyddio ffurflen N244 a thalu'r ffi berthnasol).

Mae'r Llys yn cadw'r hawl i allu rhestru gwrandawriad i'w wrando o bell ohono'i hun, pan fo hynny'n briodol, yn unol â'r prif amcan (e.e. os na fydd barnwr sydd wedi'i awdurdodi i eistedd yn y Llys Cynllunio ar gael i wrando gwrandawriad adnewyddu llafar 30 munud mewn canolfan benodol, gellir rhestru gwrandawriad o'r fath ar gyfer gwrandawriad o bell).

Mae trefniant gwahanol yn weithredol ar gyfer ceisiadau i ymestyn gorchmynion interim a roddwyd ar weithwyr proffesiynol ym maes iechyd neu waith cymdeithasol. Y drefn arferol yw y bydd y gwrandawriadau hyn yn cael eu gwrandao o bell (drwy blatfform fideo'r cwmwl). Fodd bynnag, gall y naill barti neu'r llall wahodd y Llys i restru'r gwrandawriad i fod yn un wyneb yn wyneb lle bydd angen i'r partïon deithio iddo. Gellir anfon neges e-bost i wneud cais o'r fath (gan anfon copi at y partïon eraill), ac nid oes angen gwneud rhybudd o gais ffurfiol.

Mr Ustus Fordham

Barnwr Cyswllt y Llys Gweinyddol ar
gyfer Rhanbarthau Gogledd a Gogledd
Ddwyrain Lloegr

Mrs Ustus Steyn

Barnwr Cyswllt y Llys Gweinyddol ar
gyfer Cymru a Chylchdeithiau
Canolbarth a Gorllewin Lloegr.

11 Ebrill 2022